Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Bodedern

Bodedern
Caergybi
LL65 3TZ

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

# Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Bodedern

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Bodedern |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 98 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 80 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 8 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 18.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 21.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 66.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 02/12/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 22/11/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 10/03/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Bodedern yn gymuned hapus a chartrefol. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, y staff a'r disgyblion. Mae hyn yn annog disgyblion i ddatblygu agweddau buddiol at eu dysgu ac ymddygiad cadarnhaol.

Rhinwedd nodedig o ddarpariaeth yr ysgol yw'r berthynas glòs sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r staff. Mae athrawon yn ystyried syniadau a chwestiynau'r disgyblion yn gyson wrth gynllunio gweithgareddau sy'n ennyn eu diddordeb yn y themâu tymhorol yn dda. Cryfder amlwg yw'r modd mae'r cwricwlwm wedi ei gynllunio'n ystyrlon i ganolbwyntio ar gynefin y disgyblion. O ganlyniad i'r cynlluniau pwrpasol hyn, mae'r disgyblion yn meithrin balchder at eu bro, gan ddathlu treftadaeth Bodedern ac Ynys Môn yn hynod effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod y gweithgareddau dysgu yn ennyn diddordeb y disgyblion ac yn datblygu ystod o fedrau'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn llwyddiannus. Ar adegau, mae tueddiad i staff or-arwain y dysgu, sy'n arafu gallu'r disgyblion i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol. Mae athrawon yn defnyddio dulliau holi ac anogaeth amserol er mwyn cefnogi cynnydd disgyblion a sicrhau eu dealltwriaeth. Maent yn rhannu adborth yn amserol sy'n galluogi disgyblion i adnabod beth maent wedi ei wneud yn dda. At ei gilydd, nid yw'r adborth yn nodi'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae'r pennaeth a'r staff yn cael eu cefnogi'n frwd gan lywodraethwyr sy'n llwyr ymroddedig i lwyddiant yr ysgol. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gweithio'n agos â staff er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r safonau dysgu. Yn dilyn gweithgareddau monitro, maent yn rhannu gwybodaeth am eu canfyddiadau yn briodol, gan ymateb yn brydlon i'r hyn sydd angen ei wella.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Ehangu a mireinio cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

A2. Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn adnabod y camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae arweinyddiaeth effeithiol a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae'r pennaeth, ar y cyd â'r disgyblion, staff a rhieni wedi creu gweledigaeth bwrpasol sy'n canolbwyntio ar greu cymuned ysgol hapus sy'n blaenoriaethu 'Dysgu, Tyfu a Llwyddo gyda'i gilydd'. Mae ymdeimlad cryf o berthyn wedi ei wreiddio yn yr ysgol, ac mae'r berthynas waith gynhaliol a chyfeillgar sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohono'i hun, y staff a'r disgyblion. Cefnogir y pennaeth gan dîm o staff brwdfrydig ac egnïol. Maent yn cydweithio'n ddiwyd er mwyn sicrhau profiadau ysgogol sy'n cymell disgyblion ac yn tanio eu chwilfrydedd naturiol yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn dangos agweddau buddiol at ddysgu ac ymddygiad cadarnhaol.

Ar draws yr ysgol, mae staff yn cydgynllunio'n effeithiol i ddarparu cwricwlwm bwriadus, eang a chyffrous, sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiadau yn llwyddiannus. Mae athrawon yn ystyried syniadau a chwestiynau'r disgyblion yn gyson wrth gynllunio gweithgareddau sy'n ennyn eu diddordebau yn y themâu tymhorol yn dda. Mae dyluniad bwriadus yr athrawon o'r cwricwlwm yn golygu bod gweithgareddau'n rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ar draws meysydd dysgu. Cryfder amlwg y ddarpariaeth yw'r modd mae'r cwricwlwm wedi ei gynllunio'n ystyrlon i ganolbwyntio ar gynefin y disgyblion.

### Ciplun: Dylunio cwricwlwm o amgylch yr ardal leol

Wrth gynllunio themâu lleol, mae staff yn darparu gweithgareddau diddorol gan ystyried cwestiynau'r disgyblion. Er enghraifft, sut a pham mae pentref Bodedern wedi newid dros amser? Trwy gynllunio profiadau ystyrlon, mae staff yn rhoi sylw i hanes a threftadaeth y pentref, gan gydgynllunio ymweliadau sy'n datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i'r ardal. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn tywys y disgyblion ieuengaf o amgylch y pentref, gan adrodd straeon a hanesion am eu milltir sgwâr. Mae staff yn cefnogi'r profiadau hyn yn effeithiol gyda gweithgareddau bwriadus yn y dosbarthiadau, fel ymchwilio i hanes y tân a losgodd yr hen ysgol. O ganlyniad i'r cynlluniau pwrpasol hyn, mae pob disgybl yn meithrin balchder at eu bro, gan ddathlu treftadaeth Bodedern ac Ynys Môn yn hynod effeithiol.

Rhinwedd nodedig o’r ddarpariaeth yw’r berthynas glòs sy’n bodoli rhwng y disgyblion a’r staff. Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol yn werthfawr. Maent yn defnyddio dulliau holi ac anogaeth amserol er mwyn cefnogi cynnydd disgyblion ac ymestyn eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o wahanol gyd-destunau yn effeithiol. Mae athrawon yn rhannu adborth yn amserol sy’n galluogi disgyblion i adnabod yr hyn maent wedi ei wneud yn dda. Er hyn, nid yw’r adborth yn nodi’r camau nesaf yn nysgu’r disgyblion yn ddigon effeithiol.

Mae athrawon yn gwerthuso ac asesu cynnydd a datblygiad disgyblion unigol a grwpiau penodol yn effeithiol. Maent yn cofnodi ac olrhain cyflawniad disgyblion yn dda. O ganlyniad, mae gan athrawon a chymorthyddion wybodaeth gyfredol am gyflawniad a chynnydd y disgyblion sy’n eu galluogi i’w herio yn eu dysgu yn briodol. Mae athrawon yn datblygu’r dysgu ar gyflymder addas ac yn ysgogi disgyblion i ddyfalbarhau a llwyddo. Fodd bynnag, ar adegau, mae tueddiad i staff or-arwain y dysgu, sy’n arafu gallu’r disgyblion i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol.

Mae staff yn cynnig cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan sicrhau bod cynlluniau dysgu'n cael eu haddasu i'w hanghenion unigol. Mae cydweithio cryf rhwng yr ysgol a chyrff allanol yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn magu hyder.

Mae staff yn datblygu medrau disgyblion yn effeithiol, gan adeiladu’n dda ar eu dysgu blaenorol. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth ac yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd. Erbyn brig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ystyried y gynulleidfa’n llwyddiannus wrth ysgrifennu darnau estynedig, fel portreadau dychmygus o ‘ynys fy mhersonoliaeth’. Ar draws yr ysgol, mae staff yn datblygu medrau rhifedd a digidol ynghyd ag ystod eraill o fedrau mewn amrywiol feysydd dysgu. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles disgyblion yn boblogaidd ymysg disgyblion ac mae’r cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu eu medrau cymdeithasol ac emosiynol yn cael effaith gadarn ar eu lles. Mae’r ddarpariaeth i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau creadigol a’u doniau celfyddydol yn gadarn.

Drwy amryw bwyllgorau, mae’r disgyblion yn cydweithio’n llwyddiannus i ddylanwadu ar fywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion y cyngor eco yn plannu hadau a thyfu llysiau tymhorol fel tatws, cennin a moron i greu cawl iachus sy’n annog y disgyblion i fwyta’n iach.

Mae’r pennaeth wedi sefydlu trefniadau cadarn i fonitro a gwerthuso’r dysgu a’r ddarpariaeth. Maent yn defnyddio ystod addas o dystiolaeth er mwyn adnabod cryfderau a meysydd i’w gwella. Mae’r staff cyfan wedi ymrwymo’n llwyr i’r broses sy’n golygu eu bod yn gweithio mewn diwylliant sy’n eu hannog i ddatblygu a gwella eu harferion yn gyson. Er enghraifft, drwy broses o gyd-graffu ar waith disgyblion, mae athrawon yn adnabod

agweddau sydd angen sylw, fel yr angen i gysoni'r defnydd o feini prawf llwyddiant yng ngweithgareddau dysgu'r disgyblion. O ganlyniad, mae athrawon yn gweithredu'n amserol i wneud gwelliannau parhaus.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol. Mae ganddynt wybodaeth gadarn am berfformiad ac effaith gweithdrefnau'r arweinwyr ar les a chynnydd disgyblion. Maent yn rhannu cyfrifoldebau yn gydwybodol ac yn cynnal ymweliadau cyson i'r ysgol i werthuso effaith y ddarpariaeth ar safonau a chynnydd disgyblion. Mae hyn yn golygu eu bod yn herio arweinwyr yn fwriadus i wneud addasiadau amserol, er enghraifft am bresenoldeb cyson y disgyblion i'r ysgol. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yng nghyfraddau presenoldeb disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhan greiddiol o'r gymuned ac mae bron bob disgybl yn chwarae rhan weithredol wrth gydweithio ar brosiectau i wella eu hardal. Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn cydweithio'n agos â'r cyngor cymuned ar brosiectau fel 'byrddau straeon' i adrodd hanes a straeon Bodedern gyda thrigolion y pentref. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau llythrennedd yn briodol wrth greu posteri a'u rhannu â'r rhieni i godi baw eu cŵn o amgylch y strydoedd. Trwy hyn, mae'r profiadau hyn yn cyfrannu'n hynod lwyddiannus at ddatblygu disgyblion i fod yn ddinasyddion aeddfed a chydwybodol sy'n arddangos balchder at dreftadaeth eu hardal leol.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarn â'r rhieni. Mae rhieni'n teimlo eu bod yn gallu sgwrsio ag unrhyw aelod o staff er mwyn trafod lles ac addysg eu plant. Caiff gwybodaeth berthnasol am weithgareddau'r ysgol ei rhannu'n briodol â'r rhieni drwy amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/05/2025